OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 2467 (Cy. 236)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy) i Gyffordd 17 (Morfa Conwy), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Medi 2014* |
| *Yn dod i rym* | *15 Medi 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt neu'n agos atynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Medi 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy) i Gyffordd 17 (Morfa Conwy), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro) 2014.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:30 o'r gloch ar 15 Medi 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy) a Chyffordd 17 (Morfa Conwy) ym Mwrdeistref Sirol Conwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Atal Dros Dro**

**5.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy – Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2013**(3)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Medi 2014

***R Morgan***
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(3)** O.S. 2013/693 (Cy.85)

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1
## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gerbytffordd gylchredol y gefnffordd wrth Gyffordd 18 (Cyffordd Llandudno) sy'n ymestyn i gyfeiriad clocwedd o'i chyffordd â thrwyniad ynys ganolog Ffordd 6G hyd at ei chyffordd â dechrau'r ffordd ymuno tua'r dwyrain.

Y darn o gerbytffordd gylchredol y gefnffordd wrth Gyffordd 18 (Cyffordd Llandudno) sy'n ymestyn i gyfeiriad clocwedd o'i chyffordd â dechrau'r ffordd ymuno tua'r dwyrain hyd at ei chyffordd â diwedd y ffordd ymadael tua'r dwyrain.

Y darn cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyffordd Llandudno).

## ATODLEN 2
## Terfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o danbont Ffordd yr Orsaf, Mochdre hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyffordd Llandudno), gan gynnwys y ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18.

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17 (Morfa Conwy) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 18 (Cyffordd Llandudno), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17 a'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 18.